***Polisi Gwisg Ysgol***
***School Uniform Policy***

***Ysgol Y Faenol***

***Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted: 18.5.21***
***Dyddiad Adolygu/Review Date:*** *25.9.24*

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: Rhianon Bragg**

**Dyddiad:** *25.9.24*

## 1. Cyflwyniad

Polisi'r ysgol yw fod pob plentyn yn gwisgo gwisg ysgol pan yn mynychu'r ysgol neu pan yn mynychu digwyddiadau ble mae'r plentyn yn cynrychioli'r ysgol y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Ysgrifennwyd y polisi yma wedi ystyried Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru ar Bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Seilir y polisi hwn ar y gred fod gwisg ysgol yn:

- hybu ymdeimlad o falchder o'n hysgol;
- creu ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned sydd yn perthyn i'r ysgol;
- ymarferol, taclus a thwt;
- gwneud i bod plentyn deimlo'n gyfartal o ran ymddangosiad;
- cael i'w ystyried fel dillad addas ar gyfer ysgol ac yn werth da am arian;

Mae'r polisi gwisg ysgol yn rhan greiddiol o ymroddiad yr ysgol tuag at cydraddoldeb a chynhwysiad. Mae Corff Llywodraethol yr ysgol yn credu fod gwisg ysgol yn galluogi i holl ddisgyblion yr ysgol rannu ymdeimlad o hunaniaeth gan ddathlu nodweddion sydd yn gyffredin i bawb, gan hefyd barchu amrywiaeth.

Os ydych yn ansicr, yna dylech gysylltu a Swyddfa'r ysgol cyn prynu gwisg.

## 2. Y Wisg Ysgol

Rydym yn annog rhieni neu ofalwyr i brynu gwisg ysgol hyd oed pan fydd plentyn yn yr oed meithrin. Mae'r wisg fel a ganlyn;

- trowsus / sgert llwyd neu du
- esgidiau addas
- crys polo jâd
- crys chwys glas brenhinol



Yn ystod tymor yr haf gall disgyblion wisgo ffrog

haf neu drowsus byr  a sandalau pe dymunir.

**Addysg Gorfforol**

Siorts du crys T / polo gwyn, plimsolls / treinyrs du.

## 3. Enwau ar ddillad / dillad coll

Rydym yn annog y rhieni, gofalwyr a phlant i sicrhau fod pob dilledyn wedi ei labelu yn glir gyda enw'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys esgidiau a plimsolls addysg gorfforol. Bydd pob dilledyn sydd ddim yn cael ei hawlio ar ddiwedd pob hanner tymor yn mynd i fanc dillad cyfagos neu yn cael ei ail-gylchu o fewn yr ysgol.

## 4. Esgidiau

Rydym yn annog y plant i wisgo esgidiau du i'r ysgol. Credwn fod hyn yn gwneud i'r disgyblion edrych yn daclus ar gyfer mynychu'r ysgol. Dylai fod yr esgidiau yn ddiogel ac yn addas i chwarae yn ddiogel tu allan ar fuarth neu gae yr ysgol(tymor yr haf). Ni ddylai'r un plentyn wisgo esgidiau gyda sodlau uchel(high heels), 'Sliders', 'flip-flops' na 'Crocs' i'r ysgol.

## 5. Gwalltiau ac addurniadau

Nid yw lliwio gwallt yn rhan o'r wisg ysgol. Nid sioe ffasiynau yw'r ysgol chwaith. Gofynnir i rieni a gofalwyr wneud pob ymdrech i barchu'r rheol hon. Dim ond 'studs' sydd yn cael eu caniatau o ran clustlysau. Ni ddylid gwisgo unrhyw glustlysau ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Trafodir unrhyw steil gwallt anarferol gyda rhieni pan fo'n berthnasol i wneud hyn.

Fel ysgol, mae gennym yr hawl i benderfynu beth sydd yn dderbyniol, ac sydd ddim yn dderbyniol i'w wisgo i ddod i'r ysgol.

Dylai ewinedd fod yn fyr, ac ni chaniateir i blant ddod i'r ysgol gyda ewinedd ffug.

Os oes rhesymau crefyddol yn gofyn i blentyn wisgo mewn modd arbennig, yna trafodir hyn gyda'r rhieni mewn dull sensitif a synhwyrol.